Y wybodaeth sydd ei hangen mewn cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn gwarchod rhywogaethau sydd wedi'u dynodi'n rhywogaethau a warchodir gan Ewrop. Os ydych chi am wneud gwaith a allai effeithio ar un o'r rhywogaethau hyn, bydd angen trwydded arnoch chi.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan reoliad 53(1) a 56(3) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, roi trwyddedau i'r dibenion canlynol:

- **Diogelu iechyd y cyhoedd neu sicrhau diogelwch y cyhoedd** neu **unrhyw reswm hanfodol arall sydd o fudd cyhoeddus tra phwysig** yn cynnwys rhesymau cymdeithasol neu economaidd eu natur a chanlyniadau buddiol o'r pwysigrwydd sy'n bwysig iawn i'r amgylchedd;
- **Atal clefyd rhag lledaenu**;
- **Atal difrod difrifol** i dda byw, porthiant da byw, cnydau, llysiau, ffrwyth, coed sy'n tyfu neu eiddo o unrhyw fath arall neu i bysgodfeydd; i ganiatáu i bobl wneud gweithgareddau a fyddai'n anghyfreithlon fel arall;

Cyn cyhoeddi trwydded dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i'r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon:

- "nad oes dewis boddhaol arall" yn lle'r gwaith arfaethedig ac,
- na fydd y gweithgarwch arfaethedig "yn cael effaith andwyol ar y gwaith o gynnal poblogaeth y rhywogaeth ar *statws cadwraethol ffafriol*".

Er mwyn gofalu eich bod chi'n bodloni'r gofynion hyn, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gael digon o wybodaeth i allu asesu'r cais. Dylech gynnwys y wybodaeth yn y ffurflen gais a'r datganiad dull. Mae templedi datganiadau dull ar gyfer ystlumod, y pathew, y fadfall ddŵr gribog a'r dyfrgi ar gael ar safle yma. Os oes angen caniatâd cynllunio ar y gwaith, bydd angen gwybodaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd.

Mae'r **datganiad dull** yn rhoi manylion y gwaith arfaethedig ac fe ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:

<u>1) Gwybodaeth yr arolwg</u>
Dylid cynnal arolygon ar adeg briodol, mewn ffordd briodol, gan wneud ymdrech deilwng. Mae angen arolygon digonol i bennu presenoldeb, niferoedd a dosbarthiad y rhywogaeth a warchodir. Dylai'r arolwg edrych ar ddosbarthiad y cynefinoedd ar y safle hefyd a sut maen nhw'n cysylltu â'r ardaloedd cyffiniol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i ddarogan effaith debygol y gweithgarwch neu ddatblygiad arfaethedig. Dylai'r datganiad dull grynhoi a dehongli canlyniadau'r arolwg a rhoi manylion unrhyw gyfyngiadau'r arolwg. Dylid cynnwys adroddiad llawn yr arolwg fel atodiad i'r datganiad dull.

Mae canllawiau ar dechnegau arolygu ar gyfer rhywogaethau dethol a warchodir gan Ewrop ar gael yn y dogfennau a restrir isod. Os nad oes modd dilyn y fethodoleg safonol (yn cynnwys amseru ac ymdrech), rhaid i'r datganiad dull egluro hynny'n llawn a rhoi cyfiawnhad. *Nodwch, os nad ydych chi'n cyflwyno gwybodaeth gyflawn yr arolwg, mae'n bosib na fydd modd asesu effaith debygol y datblygiad a gellid gwrthod y cais.*

2) Lliniaru a digolledu

Dylid defnyddio canlyniadau arolygon ac asesiadau i nodi sut bydd y gwaith yn cael ei wneud i sicrhau nad yw'n cael effaith ar y rhywogaeth a warchodir dan sylw. Dylid cyflwyno gwybodaeth ddiamwys a chlir am effaith debygol y gwaith heb unrhyw fesurau lliniaru a'i effaith debygol unwaith bydd y mesurau lliniaru neu ddigolledu arfaethedig wedi'u rhoi ar waith. Dylai'r datganiad dull egluro sut bydd y gwaith yn cael ei wneud (yn cynnwys dulliau clirio'r safle neu fesurau i osgoi lladd neu anafu), mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r effaith, mesurau lliniaru neu ddigolledu os rhagwelir y bydd y gwaith yn cael effaith, a mesurau sy'n dangos bod y prosiect wedi'i gyflawni'n briodol.

Os caiff cynigion digolledu eu cyflwyno (h.y. safleoedd neu gynefinoedd newydd i ddigolledu am golli safleoedd bridio / cynefin), bydd angen cynnwys dulliau ar gyfer sicrhau diogelwch a rheolaeth y safle yn yr hirdymor. Bydd angen asesiadau o beryglon i bioddiogelwch mewn rhai sefyllfaoedd hefyd.

Mae cynnwys mapiau neu luniadau perthnasol yn help mawr i asesu ceisiadau am drwydded. Felly, dylai'r datganiad dull gynnwys mapiau, lluniau o'r awyr a lluniadau pensaer anodedig perthnasol.

3) Arolygu'r prosiect a monitro ar ôl y prosiect

Rhaid monitro yn erbyn targedau clir i weld a fu'r mesurau lliniaru neu ddigolledu yn llwyddiannus. Dylai'r datganiad dull nodi'r cynigion monitro a rhoi manylion camau unioni y byddwch chi'n eu rhoi ar waith os nad yw'r mesurau lliniaru mor llwyddiannus â'r disgwyl. Bydd gwybodaeth fonitro o'r fath yn cael ei defnyddio hefyd i wella'r cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir i ymgeiswyr yn y dyfodol.

Yn achos cynlluniau cymhleth, cynlluniau risg ganolig i risg uchel a chynlluniau sy'n effeithio ar rywogaethau sensitif, mae'n bosib y bydd angen cynigion i ddangos bod y datganiad dull yn cael ei weithredu'n llawn ac yn briodol. Cyflwyno cynllun archwilio cydymffurfiaeth yw'r dull mwyaf cyffredin o wneud hyn.

4) Cydymffurfio

Os rhoddir trwydded, bydd cydymffurfio â'r datganiad dull yn un o amodau'r drwydded ac mae'n drosedd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i beidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded neu weithredu'n groes iddyn nhw. Mae angen ysgrifennu'r datganiad dull fel bod ymrwymiad clir i gyflwyno'r mesurau lliniaru arfaethedig e.e. '*bydd* ffens yn cael ei chodi...' yn hytrach na 'gellid codi ffens...'. Os nad yw'r datganiad dull wedi'i eirio'n gywir, gallwn ni ei ddychwelyd atoch i'w ail-ysgrifennu.

Canllawiau ar arolygon a lliniaru

Er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ofynnol gyda'ch cais am drwydded, bydd angen i chi gyflogi ecolegydd proffesiynol yn ôl pob tebyg. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y 'Canllawiau ar Gyflogi Ecolegwyr'.

Gallwch gael canllawiau ar arolygon a lliniaru yn y cyhoeddiadau/dolenni canlynol:

- **Bat Mitigation Guidelines** (2il rifyn yn cael ei baratoi ar hyn o bryd) http://naturalengland.etraderstores.com/NaturalEnglandShop/IN136
- **Bat Surveys – Good Practice Guidelines** (2il rifyn) http://www.bats.org.uk/download_info.php
- **Lesser horseshoe bat roost design and management**, Schofield, H.W. (2008)
- **The Lesser Horseshoe Bat Conservation Handbook**, The Vincent Wildlife Trust www.vwt.org.uk
- **Bats** and **Bats in Roofs: a guide for building professionals**.
- **Dormouse Conservation Handbook 2il Rifyn** http://naturalengland.etraderstores.com/NaturalEnglandShop/IN29
- **Otters: Guidelines for developers**.
- **Great Crested Newt Mitigation Guidelines** http://naturalengland.etraderstores.com/NaturalEnglandShop/UserFiles/Files/newt1.pdf

D.S. Gallwch archebu holl gyhoeddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru gan y tîm Ymholiadau, ffoniwch 0300 065 3000 neu e-bostio ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gallwch lawrlwytho ffurflenni cais a thempledi datganiadau dull yn yr adran Gwneud Cais a Phrynu ar ein gwefan.